Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanhari
# Caretakers Cottage
# Ysgol Llanhari
# Llanhari
# Rhonadda Cynon Taff
# CF72 9XE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanhari

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanhari |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal llawn |
| Person(au) cofrestredig | Lisa Thomas |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Sarah Davies |
| Nifer y lleoedd | 45 |
| Amrediad oedran y plant | 2 -5 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 9 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.30 -15.15 Dydd Llun I Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg yn y bore a dwyieithog yn y prynhawn |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydi |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Rhagfyr 2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Heb gael arolygiad |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 26/03/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae'r lleoliad ar ddau safle ar hyn o bryd, y bwthyn sydd yn hunangynhaliol a Dosbarth Drudwy, sydd mewn dosbarth yn Ysgol Llanhari.<br><br>Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Darparu profiadau dysgu heriol i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau'n llwyddiannus

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn ymyrryd yn amserol yn nysgu'r plant i hybu eu hannibyniaeth yn fwy effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.Bydd Estyn ac AGC yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus, yn llawn bywyd a chyffro ac yn edrych ymlaen at chwarae.

Mae bron pob plentyn yn dangos boddhad ac hapusrwydd ac yn rhyngweithio'n ardderchog gyda ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn hyderus iawn wrth fynegi eu teimladau'n ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol wrth ddewis adnoddau a gweithgareddau cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd. Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn canolbwyntio'n ddiwyd a chydwybodol yn ystod tasgau. Maent yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad gwydn yn eu chwarae a dysgu. Mae bron pob un yn ymateb yn eiddgar i her a chefnogaeth yr ymarferwyr. Maent yn dangos sgiliau dychmygol wrth drafod hoff gymeriadau o'u llyfrau stori, yn defnyddio lleisiau a gweithredoedd addas. Mae'r plant yn awgrymu arbrofi bwyta ffrwythau anarferol ar ôl ddarllen hoff straeon wedi'i osod i mewn hinsoddau trofannol.

Mae rhan fwyaf y plant yn canolbwyntio'n arbennig o dda ac yn annibynnol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol. Maent yn rhannu ac yn cydweithio yn rhagorol gyda phlant eraill. Maent yn dangos creadigrwydd a dychymyg ardderchog tuag at rai gweithgareddau, er enghreifft wrth iddynt ddefnyddio ffyn bach i droi toes i mewn i ddraenog ac ychwanegu blodau bach melyn i'w harddurno. Mae mwyafrif y plant yn gwneud penderfyniad meddylgar i beidio ymuno ag amser cylch a dewis chwarae gyda'r dŵr neu barhau i ddarllen llyfrau. Mae'r plant yn symud yn synhwyrol o'r ardal fewnol i'r ardal allanol yn gwbl annibynnol ac yn gwisgo 'welis' a chotiau glaw yn ystod tywydd gwlyb. Caiff y plant gyfleoedd arbennig sy'n cynnwys chwilio am bryfed o dan y goeden ac yn y gegin fwd, defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau er mwyn gwneud patrymau gyda phaent a dŵr a gwylio'u planhigion yn tyfu o hadau.

Mae bron pob plentyn yn ymdopi'n dda iawn pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr wrth gyrraedd y lleoliad. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol gyda'u gweithwyr allweddol sy'n effeithio'n arbennig o dda ar eu llês a'u cymhelliant. Mae mwyafrif o blant yn mynd trwy'r broses o setlo i mewn heb unrhyw drafferth ac ac yn derbyn cysur tyner gan ymarferwyr, ac mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn. Mae amseriad y broses yn dibynnu ar ba bryd mae'r plentyn yn barod i wahanu oddi wrth rhiant. O ganlyniad mae bron pob un yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu dewisiadau ac yn ymateb yn effeithiol i'w anghenion.

Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu yn gwrtais gyda phlant eraill, ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae'r plant yn hapus i chwarae gyda'i gilydd a gyda'r ymarferwyr yn yr ystafell gartref, yn arllwys te ac yn gwneud bwyd i bobl. Maen nhw'n mwynhau rhoi pleser i bobl eraill ac yn croesawu ymwelwyr. Maent yn cydweithio ag eraill yn ardderchog gan ddangos amynedd rhagorol wrth aros eu tro. Mae bron pob plentyn yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn fawr iawn ac yn gwneud hynny'n hyderus. Maent yn dilyn eu diddordebau ac yn frwdfrydig iawn wrth ymgymryd yn y gweithgareddau eithriadol i chwarae rôl. Er enghraifft, wrth drefnu gwyliau yn y siop deithio ac wrth ddefnyddio blociau mawr ar y safle adeiladu

Mae bron pob un o'r plant yn ymfalchïo yn eu gallu i arddangos eu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o brofiadau dysgu. Maent yn datblygu eu medrau hunangymorth yn ystod amser byrbryd yn llwyddiannus iawn ac mae hyn yn datblygu hunanwerth y plant yn effeithiol. Er enghreifft, mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio teclynnau bychain gyda rheolaeth da fel llwyau ar gyfer grawnwin a iogwrt. Maent yn defnyddio chwyddwydrau yn hyderus wrth ymholi ar y byrddau golau. Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio cyfarpar chwarae mawr fel llithren, beiciau a cherrig camu gyda rheolaeth gynyddol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gryf o'u cyfrifoldebau a thrwy arferion dyddiol, maent yn darparu cyfleoedd eithriadol i blant ddatblygu a rhagori. Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel i blant wreiddio arferion cryf sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad personol. Er enghreifft trwy hybu arferion cadw'n iach a sut i drin pobl â pharch a chwrteisi. Mae gan y lleoliad weithdrefnau trwyadl iawn ar gyfer cadw plant yn ddiogel. Maent yn cadw'r holl gofnodion o unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth perthnasol mewn un lle. Mae hyn yn cael ei fonitro bob wythnos gan yr arweinydd, sy'n trafod gyda gweithwyr allweddol i ddod o hyd i ddeilliannau priodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan pob un o'r ymarferwyr sydd yn adlewyrchiad o'r pwyslais cryf a roddir ar ddiogelwch. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod y plant yn cadw'n iach, er enghraifft, trwy ddarparu bwyd iachus a maethlon amser byrbryd ac thrwy annog y plant i olchi dwylo a brwsio'u dannedd cyn ac ar ôl bwyta.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth ardderchog am anghenion ac hoffterau plant. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru er mwyn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae hyn hefyd yn atgyfnerthu'r berthynas gryf iawn sy'n bodoli rhwng yr ymarferwyr a rhieni.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cefnogaeth gyson ac eithriadol i blant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth cadarn iawn o'u hemosiynau. Maent yn defnyddio gemau a chaneuon sy'n cyfeirio at deimladau a sut i'w hadnabod a'u rheoli. Mae gan nifer o'r ymarferwyr brofiad a chymhwyster defnyddiol ar gyfer cefnogi plant yn ardderchog i'w helpu i reoli eu teimladau, gwneud ffrindiau ac ymdopi gyda sefyllfaoedd anodd yn eu bywydau. Mae plant yn elwa o'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwytnwch a dyfalbarhad. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ac yn eu hannog i drin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Er enghreifft gan ddysgu plant am ddathlu Diwali gan ddefnyddio patrymau artistig lliwgar a defodau Blwyddyn Newydd Tseineaidd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i blant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Maent yn trefnu'r tasgau a gweithgareddau er mwyn iddynt wneud cymaint â phosibl drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn dangos balchder mawr ar ôl arllwys eu diodydd, helpu eu hunain amser byrbryd a thacluso.

Mae ymarferwyr yn adnabod anghenion plant ag anawsterau ychwanegol yn effeithiol iawn. Maent yn datblygu strategaethau wedi'u seilio ar asesiadau manwl. Mae'r lleoliad yn defnyddio asesiadau cyfathrebu pwrpasol ar gyfer pob plentyn wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad er mwyn adnabod eu hangenion o ran iaith a chyfathrebu. Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn drwyadl er mwyn ymateb i unrhyw anghenion unigol, er enghraifft trwy gydweithio'n effeithiol iawn gyda staff 'Dechrau'n Deg' a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Mae'r Cynnig Gweithredol ar waith yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg trwy'r amser gyda'r plant. Mae bron pob plentyn yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac mae nifer ohonynt yn cyfathrebu yn hyderus ac yn naturiol yn eu hail iaith. Mae nifer o rieni'n gwerthfawrogi'r pwyslais ar y iaith Gymraeg sy'n paratoi eu plant yn dda iawn pan fyddant yn mynychu ysgolion Cymraeg.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn ddeallus. Maent yn darparu profiadau dysgu difyr yn gydwybodol ac mae eu hymroddiad yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant.

Mae'r cynllunio pwrpasol yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol ymysg y plant. Mae'r gweithgareddau llwyddiannus yn cynnwys heriau i ymateb ar lafar i gerddi am anifeiliaid y jyngl a chyfatebu patrymau ar grwyn i'r anifail perthnasol. Yn ogystal, maent yn paratoi cyfleoedd synhwyrol i arbrofi ag offer TGCh fel byrddau golau a synwyryddion metel.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol effeithiol. Maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol, trwy gydweithio i daflu peli trwy gylchoedd a pheintio pobl sy'n eu helpu, fel doctoriaid. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd heriol i ddatrys problemau'n annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn gyson a chanu hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r arferion rheolaidd yn cefnogi'r plant i ymateb yn briodol yn y Gymraeg.

Mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr. Maent yn gweithredu'n ddiwyd a holi'n dda. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu trwy chwarae ymarferol, sy'n effeithio'n gadarn ar fedrau'r plant. Enghreifftiau da o hyn yw darganfod creaduriaid y môr yn y dŵr lliw a pheintio enfys wrth isl. Fodd bynnag, mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar ddysgu annibynnol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â'u deilliannau. Maent yn asesu'n rheolaidd ac yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau yn drylwyr i dargedu'n effeithiol y camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, fel astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a dathliadau Diwali. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a choginio cawl. Gwneir defnydd buddiol o ymwelwyr ac ymweliadau. Enghreifftiau da yw ymweliad gan swyddog diogelwch y ffyrdd a thaith i'r swyddfa bost i brynu stampiau i bostio llythyron. Mae'r cyfleoedd hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn o bobl eu cymuned a'u milltir sgwâr.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal diwrnodau agored tymhorol gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu llyfryn defnyddiol ac adroddiad cynnil iddynt ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, sy'n adlewyrchu cyflawniadau'r plant yn effeithiol.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu o safon uchel iawn ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i blant. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu yn effeithiol iawn er mwyn ysgogi'r plant ac i danio'u dychymyg. Mae hyn yn cefnogi eu medrau creadigol yn llwyddiannus ac yn eu hannog i fod yn ddysgwyr chwilfrydig. Mae'r ardaloedd allanol yn cynnig cyfleodd ardderchog i blant dreulio amser yn defnyddio ac arbrofi ag adnoddau naturiol mewn amgylchedd sy'n hynod o ddeniadol ac ysgogol. Mae ardal gysgodol fawr y tu allan sy'n cynnal gweithgareddau diddorol o ansawdd uchel. Mae'r ardal hon yn darparu gweithgareddau ychwanegol at y ddau ofod allanol arall ac yn rhoi dewis eang i bob plentyn. Er enghreifft mae gweithgareddau chwarae rôl hefyd ar gael yn yr ardal hon yn cynnwys ty bach twt.

Mae'r arweinyddion yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cadw'n iach trwy ddilyn ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr iawn. Maent yn rhoddi blaenoriaeth i asesu pob risg sy'n perthyn i'r ardaloedd allanol a mewnol yn ddyddiol. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelwch yn sefydlog ac yn effeithiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod systemau ar gyfer casglu plant ar ddiwedd sesiynau yn drwyadl ac yn effeithiol. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo gyda'r trefniadau hyn.Mae'r lleoliad yn lân a deniadol ac wedi'i gynnal a'i gadw dda iawn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr ac yn cynnal archwiliad rheoli heintiau yn fisol. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac yn addas, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn cydymffurfio â'r safonau ddiogelwch perthnasol yn dda iawn Mae pwyslais mawr a chreadigol ar ddefnyddio amrywiaethau eang o ddeunyddiau cynaliadwy. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd a phlastig yn y bwthyn . Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gael gan gynnwys llyfrau, doliau ac arddangosfeydd.

Mae'r arweinyddion yn delio gydag unrhyw faterion sy'n effeithio ar brofiad y plant yn brydlon. Maent yn paratoi'r amgylchedd gyda gofal ac yn sicrhau bod adnoddau yn adlwyrchu buddiannau pob plentyn. Mae offer yn cael eu cadw ar lefel isel mewn blychau clir gyda labelau a lluniau i nodi'r cynnwys. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn medru eu cyrraedd yn hawdd a gwneud eu dewisiadau'n annibynnol. Mae gan y lleoliad nifer o arddangosfeydd o grefft plant sy'n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth a pherthnasedd yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r tŷ bach yn annibynnol ac mae nifer o fasnau dŵr ar lefel priodol iddynt olchi dwylo.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Rhagorol**

Mae'r person cofrestredig a'r arweinydd o'r gwasanaeth wedi sefydlu arferion trwyadl iawn i weithdrefnau'r lleoliad.  Maent yn arwain eraill yn ardderchog ac yn llywio gweithdrefnau rhagorol.  O ganlyniad, mae'r arferion dyddiol yn llwyddiannus dros ben ac yn sicrhau darpariaeth ysgogol.

Mae'r cynllunio o brofiadau difyr, y gofal arbennig, yr amgylchedd dysgu cyffrous a'r addysgu cadarn yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y plant yn eithriadol o effeithiol.  O ganlyniad i barodrwydd yr arweinwyr i wella pob agwedd o'u gwasanaeth yn rheolaidd, mae'r holl ymarferwyr yn darparu'n fwriadus.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain ac maent yn cymell y plant i ddysgu'n gynhyrchiol, trwy ymroi'n llwyr i'w gwaith.

Mae'r arweinwyr yn meddu ar wybodaeth ardderchog am arferion y lleoliad.  Mae ganddynt weledigaeth eglur iawn ar sut i wella'r ddarpariaeth, trwy weithdrefnau hunanwerthuso arloesol.  Maent yn cynllunio'n ddiwyd iawn i greu gwelliannau pwrpasol i'r dyfodol.  Mae'n broses fyw, sy'n galluogi iddynt fonitro ac arfarnu'r gwaith gyda manyldeb miniog.  Mae pob ymarferwr yn cyfrannu at y broses yn adeiladol ac mae eu barnau'n bwysig i'r arweinwyr.  O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth eithriadol o dda o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau i wella.  Yn ogystal, mae eu harferion yn cael eu rhaeadru i leoliadau'r ardal fel esiamplau gwych ar sut i anelu at ragoriaethau.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio partneriaethau cryf iawn yn ddeallus.  Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgolion lleol i gefnogi'r plant, wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni ac maent yn cyfathrebu'n agored am eu plant yn rheolaidd.  Mae'r arweinwyr yn gwrando'n ddoeth ar awgrymiadau asiantaethau allanol.  Er enghraifft, maent yn dilysu penderfyniadau ei gilydd trwy drafodaethau agored a gweithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol i greu gwelliannau.  Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy iawn a datganiad o bwrpas effeithiol.

Mae'r person cofrestredig yn cyfrannu at strategaethau cenedlaethol i wella'r ddarpariaeth i leoliadau ar draws Cymru, sydd wedi seilio'n gadarn ar ei gweledigaeth hi a'i chyd arweinwyr.  Mae eu gweithdrefnau anwytho o'r safon uchaf.  Maer defnydd meistrolgar ohonynt yn creu ymarferwyr deallus mewn amser byr, sy'n effeithio'n dda ar y ddarpariaeth.  Mae hyfforddiant hyfedr yn rhan annatod o'r broses anwytho.  Er enghraifft, mae'n sicrhau bod medrau'r ymarferwyr llai hyderus yn y Gymraeg yn gwella'n gyflym i effeithio'n gadarnhaol ar lefaredd y plant.

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau dyraniad gwych o adnoddau yn yr ardaloedd dysgu.  Mae'r defnydd o'r gyllideb yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddeallus dros ben.  Yn ogystal, mae'r defnydd o grantiau yn arloesol ac yn cael eu defnyddio'n arbennig o dda i gefnogi lleoliadau eraill.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/06/2019